Estyn

Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ymweliad

## Lefel gweithgarwch dilynol: monitro gan yr arolygydd cyswllt

## Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Rhondda Cynon Taf

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
**The Pavilions**
**Cambrian Park**
**Clydach Vale**
**Tonypandy**
**CF40 2XX**

**Dyddiad yr ymweliad: Hydref 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Liam Kealy | Arolygydd Cofnodol |
| Lin Howells | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Barnodd tîm yr ymweliad monitro fod Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Rhondda Cynon Taf wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad yn Hydref 2012.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn gostwng lefel y gweithgarwch dilynol.

Bydd arolygydd arweiniol y sector ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yn cadw mewn cysylltiad â'r bartneriaeth ac yn ymweld â'r bartneriaeth ymhen 12 mis i arolygu cynnydd yn ôl yr agweddau hynny ar yr argymhellion yn adroddiad arolygu Hydref 2010 sydd heb eu cwblhau'n llawn.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Gwella'r cynllunio ar y cyd rhwng rheolwyr corfforaethol ac uwch reolwyr i sicrhau dyfodol dysgu oedolion yn y gymuned yn y fwrdeistref sirol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth

Mae'r bartneriaeth wedi gwella'i phrosesau rheoli strategol a gweithredol.  Mae'r tîm rheoli strategol yn cynnwys Cyfarwyddwr Addysg yr awdurdod lleol, pennaeth Coleg Morgannwg a Phrif Weithredwr Cyngor Gwirfoddol y Sir a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr (De Cymru).  Mae'r rheolwyr strategol hyn yn cynnig llyw strategol da i'r bartneriaeth a chysylltiad cryf â'r bwrdd gwasanaeth lleol a'r broses gynllunio unigol. O ganlyniad, mae'r bartneriaeth wedi gallu gwneud cynnydd da i wella cynllunio ar y cyd a sicrhau dyfodol dysgu oedolion yn y gymuned yn y fwrdeistref sirol.

Mae'r cyngor wedi penodi pennaeth dysgu cymunedol i reoli a chydlynu'r bartneriaeth ac mae'r bartneriaeth wedi sefydlu swydd rheoli gwybodaeth yn ddiweddar.  Mae hyn wedi gwella gallu'r bartneriaeth i reoli a chynllunio'i gwaith. Mae'r portffolio Dysgu yn y Gymuned hefyd yn cynnwys gwasanaethau llyfrgell ac amgueddfeydd a threftadaeth.  O ganlyniad, mae ystod eang o gyfleoedd a lleoliadau dysgu gwahanol ar gael i ddysgwyr erbyn hyn.

Yn ddiweddar, mae Coleg Morgannwg wedi cytuno ar drefniant masnachfraint tair blynedd gyda'r awdurdod lleol.  Mae hyn yn golygu bod y bartneriaeth yn gallu gwneud cynlluniau cynaliadwy ar gyfer ei chwricwlwm a'i staffio.

Mae'r awdurdod lleol wedi adolygu sut mae'n cyflogi tiwtoriaid ac mae wedi symud nifer sylweddol o staff i gontractau 25 awr yr wythnos.  Mae hyn yn galluogi tiwtoriaid i gyflawni agweddau proffesiynol eu rôl yn fwy effeithiol, fel datblygu'r cwricwlwm ac asesu ar gyfer dysgu.

Mae’r bartneriaeth wedi adolygu ei chostau rheoli i wneud yn siŵr bod mwy o adnoddau ar gael ar gyfer y ddarpariaeth. Hefyd, mae’r bartneriaeth wedi cynnal dadansoddiad da o’i darpariaeth gwricwlaidd, ei chyfleoedd am ddilyniant a pha ddarparwyr a all ddarparu agweddau ar y ddarpariaeth orau. O ganlyniad, mae’r bartneriaeth wedi gallu cyflwyno cyfleoedd dysgu newydd a gostwng dyblygu. Mae’r bartneriaeth wedi defnyddio data’n dda i gynllunio a threfnu’r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw wedi defnyddio data ddigon i wella safonau.

Mae’r bartneriaeth wedi paratoi cynllun drafft y bydd y tîm rheoli strategol yn ei ystyried yn ei gyfarfod nesaf. Mae’r cynllun yn cyflwyno nodau clir ac mae’n disgrifio amrywiaeth o flaenoriaethau. Mae’r bartneriaeth yn gwneud cysylltiadau da ag ystod o amcanion strategol eraill gan gynnwys gwella llythrennedd a rhifedd, adfywio economaidd a mynd i’r afael â thlodi. Fodd bynnag, nid yw’r cynllun yn pennu targedau strategol i helpu’r bartneriaeth i fesur cynnydd yn ôl ei nodau ac amcanion.

**Argymhelliad 2: Cwblhau’r camau sy’n angenrheidiol i fynd i’r afael â’r argymhellion hynny na aethpwyd i’r afael â nhw ers yr arolygiad diwethaf**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn llawn

Mae’r bartneriaeth wedi gweithio’n dda i gwblhau’r camau a oedd yn angenrheidiol i fynd i’r afael â’r argymhellion hynny o arolygiad 2005. Mae’r bartneriaeth nawr yn cynnig ystod dda a phriodol o gyrsiau ar draws y fwrdeistref. Mae cysylltiadau’r bartneriaeth â Choleg Morgannwg a pherthynas dda â phartneriaid eraill yn sicrhau ei bod hi’n haws cael at adnoddau ac mae wedi gwella’r gwerth am arian. Mae gan y ddarpariaeth ffocws priodol ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Mae gweithio’n gadarn mewn partneriaeth wedi arwain at welliannau o ran rheoli ansawdd a sicrhau ansawdd ar draws y ddarpariaeth. Mae’r bartneriaeth wedi gwella’r cyfnod sefydlu ar gyfer tiwtoriaid a dysgwyr ac mae cyfleuster chwilio cyrsiau ar-lein yn helpu dysgwyr i ddod o hyd i gyrsiau priodol.

Mae’r bartneriaeth yn gweithio’n dda gydag ystod o asiantaethau partner gan gynnwys partneriaethau cymunedau yn gyntaf a’r Bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Mae hyn yn helpu’r bartneriaeth i deilwra ei darpariaeth i anghenion dysgwyr dan anfantais a dysgwyr agored i niwed. O ganlyniad, mae dysgwyr yn gallu cael at ystod o gyfleoedd nad ydynt ar gael fel arfer, fel seryddiaeth, roboteg, seicoleg a digwyddiadau treftadaeth.

Mae gwaith y bartneriaeth gyda Menter Iaith a chanolfan y Gymraeg wedi cynyddu nifer y dosbarthiadau Cymraeg.

Mae mwy o weithio mewn partneriaeth gyda grwpiau Cymunedau yn Gyntaf ac adrannau eraill y Cyngor wedi cryfhau’r ddarpariaeth dysgu yn y gymuned. Mae’r bartneriaeth wedi sefydlu gwaith da gyda phrosiect Genesis, Pontydd i Waith, rhaglenni dysgu teuluol a rhaglenni i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae’r bartneriaeth yn gallu mynd i’r afael ag ystod eang o flaenoriaethau

lleol a chenedlaethol ac anghenion ystod eang o ddysgwyr. Fodd bynnag, mewn ychydig enghreifftiau, ni all dysgwyr o ardaloedd difreintiedig elwa ar ofal fforddiadwy i'w plant ac mae hyn yn eu hatal rhag manteisio ar ddysgu.

Mae ymagwedd integredig y Cyngor at wasanaethau yn golygu bod ystod ehangach o ddarpariaeth a chymorth ar gael i ddysgwyr sy'n oedolion. Mae cynnwys y Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi agor y ddarpariaeth i ystod ehangach o oedrannau dysgwyr ac mae'n annog dysgwyr iau i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu gydol oes.

Mae'r bartneriaeth wedi gwneud cynnydd da wrth ddefnyddio cynlluniau dysgu unigol a systemau ar gyfer cofnodi cyflawniad a dilyniant er mwyn dilyn trywydd cynnydd a chyflawniad dysgwyr. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r adborth arfarnol sy'n cael ei ddarparu gan diwtoriaid. Fodd bynnag, mewn ambell achos, nid yw'r tiwtoriaid o hyd yn gwneud defnydd effeithiol o gynlluniau dysgu unigol.

**Argymhelliad 3: Datblygu systemau i sicrhau bod yr holl staff yn deall sut i adnabod oedolion a all fod yn agored i niwed a sut i gymhwyso polisïau diogelu yn gyson**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth

Mae newidiadau diweddar i gyngor ac arweiniad cenedlaethol ynghylch diogelu oedolion agored i niwed wedi gwneud yr argymhelliad hwn yn ddiangen am y tro. Ar hyn o bryd, mae'r bartneriaeth yn dehongli sut mae'r arweiniad newydd yn berthnasol i'w gweithgareddau. Fodd bynnag, yn y cyfamser, mae partneriaid yn parhau i gymhwyso'u gweithdrefnau diogelu presennol sy'n mynd ymhellach na'r disgwyliadau newydd.

**Argymhelliad 4: Gwella mynediad dysgwyr at arweiniad gyrfaol annibynnol a'r defnydd ohono**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol

Mae'r bartneriaeth a Gyrfa Cymru wedi gweithio'n dda i gytuno ar brotocol rhannu gwybodaeth. Fodd bynnag, mae newidiadau diweddar i gyfeiriad strategol a strwythur Gyrfa Cymru wedi atal y protocol hwn rhag cael ei weithredu.

Mae dysgwyr yn mynegi pryder am sut i ddod i wybod am gyfleoedd dilyniant i lefelau dysgu uwch a chyllid ar gyfer hyn. Mae cyfleuster chwilio cyrsiau ar-lein y bartneriaeth yn helpu dysgwyr i adnabod cyfleoedd ar gyfer dilyniant. Fodd bynnag, nid yw pob dysgwr yn ymwybodol o'r ffynhonnell arweiniad hon.

Ar hyn o bryd, mae'r bartneriaeth yn ystyried sut y gall wella medrau a chynnig cymwysterau i'w staff ei hun, yn enwedig y rheiny yn y gwasanaeth llyfrgelloedd, i gynnig cyngor ac arweiniad i ddysgwyr ynghylch dilyniant i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant arall.

**Argymhelliad 5: Gwneud yn siŵr bod yr enghreifftiau o waith prosiect rhagorol yn cael eu dosbarthu ar draws y bartneriaeth**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae partneriaid wedi gweithio gyda’i gilydd yn dda i ddysgu o’u harfer dda ei gilydd ac i ymestyn hyn ar draws y ddarpariaeth.  Mae nifer o enghreifftiau o ddarparwyr yn mabwysiadu systemau da a ddatblygwyd gan ddarparwr arall.

Mae’r holl bartneriaid yn dilyn egwyddorion system rheoli ansawdd Coleg Morgannwg ar gyfer arsylwi ar diwtoriaid.  Mewn un enghraifft dda, mae’r awdurdod lleol a’i ddarpariaeth masnachfraint wedi mabwysiadu arfer dda Cymdeithas Addysg y Gweithwyr o gynnwys targedau’r tiwtor ar gyfer cyrhaeddiad dysgwyr yng nghofrestri cyrsiau.

Mae’r awdurdod lleol yn gweithio gyda phrosiectau Cymunedau yn Gyntaf i annog defnyddio cronfa ddata’r Cyngor i gofnodi cofrestru a chyrhaeddiad mewn ffordd unffurf i ddysgwyr ar draws y sir.  Dyma ddarn o waith sydd â’r potensial i fod yn ddefnyddiol, a fydd yn helpu partneriaid i olrhain cyflawniad a dilyniant wrth i ddysgwyr symud rhwng darparwyr.

At ei gilydd, mae’r bartneriaeth wedi gweithio’n dda i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r adroddiad arolygu.  Mae wedi gwella ei threfniadau ar gyfer rheoli strategol a chynllunio.  Mae wedi gwneud cynnydd sylweddol i wella cydlyniad a rheolaeth y bartneriaeth.  Mae’r bartneriaeth yn gwneud cysylltiadau da ag ystod o flaenoriaethau strategol eraill, gan gynnwys gwella llythrennedd ac adfywio economaidd.  Mae wedi rhoi trefniadau da ar waith i gyflwyno’r cwricwlwm a darparu adnoddau ar ei gyfer.  Mae’n llunio cysylltiadau da ag asiantaethau partner i gynyddu ystod yr adnoddau a’r cyfleoedd sydd ar gael i oedolion sy’n ddysgwyr.  Mae wedi mynd i’r afael yn llawn â’r argymhellion o adroddiad arolygu 2005.